# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 19 Gorffennaf 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, FfPSG

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Nichola Salter, CNC

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Katy Simmons, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Fraser McAuley, CLA

Kate Snow, United Utilities

Ruth Johnston, CNC

Matthew Walters, Llywodraeth Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Charlotte Priddy, AHDB

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

John Owen, Coleg Sir Gâr, Gelli Aur (Eitem 5)

Viktoriia Skun, AgroCares (Eitem 6)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Shane Thomas, FfPSG

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

   - DS: Mae pob aelod o'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant eisoes ond dylent ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda hefyd.

3. Soniodd Zoe fod dau gyflwynydd gwadd yn ymuno â'r cyfarfod heddiw; John Owen o Goleg Sir Gâr, Gelli Aur, a Viktoriia Skun o AgroCares.

4. Gofynnodd Zoe a oedd unrhyw un heb fynychu cyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru o'r blaen. Cyflwynodd Charlotte Priddy, AHDB, ei hun i'r grŵp. Soniodd Charlotte ei bod wedi bod yn gweithio i AHDB ers tua tair wythnos ac wedi gweithio i Undeb Amaethwyr Cymru yn flaenorol.

## Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

5. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

6. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2021. O ran pwynt gweithredu a drafodwyd ym Mhwynt 8 cofnodion cyfarfod mis Mehefin, gofynnodd Zoe i Ed Davies, CNC, egluro beth oedd ystyr ‘screening/sgrinio’ a ‘totality/crynswth’. Dywedodd Ed fod ‘sgrinio’ yn ymwneud â’r datblygiadau hynny y mae angen rhagor o wybodaeth amdanynt. Dywedodd Ed y bydd yn dod o hyd i ragor o wybodaeth am y pwnc hwn ar gyfer y Papur Diweddaru, a ddylai wneud popeth yn gliriach.

7. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach ynghylch cofnodion cyfarfod mis Mehefin.

## Eitem 3 Materion sy’n Codi

8. Dyma gyfle i’r grŵp drafod unrhyw faterion sy’n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd ag adrodd am wybodaeth arwyddocaol, cyflwyno sylwadau neu drafod unrhyw bynciau perthnasol.

9. Gofynnodd Zoe i’r grŵp a oedd ganddynt unrhyw bynciau i’w trafod yn yr eitem hon.

10. Cyflwynodd Marc Williams, CNC, ddiweddariad byr ar y Prosiect Llaeth. Dywedodd Marc fod cyllid ar gyfer y prosiect wedi cael ei sicrhau tan ddiwedd mis Mawrth 2022. Ar hyn o bryd mae tri Swyddog Llaeth a thri Uwch Swyddog Llaeth ar waith. Mae Matt Lowe, CNC, wedi dychwelyd i’w rôl bennaf, felly nid oes cydlynydd prosiect ar waith ar hyn o bryd. Mae’n debygol y cynhelir rhywfaint o recriwtio i benodi Swyddogion Llaeth newydd. Dywedodd Marc ei fod wedi siarad ag un o’r Swyddogion Llaeth, a oedd wedi sôn bod cyfanswm o 800 o ymweliadau wedi’u cwblhau hyd yma, ynghyd ag 81 ail ymweliad. Wrth symud ymlaen gyda’r Swyddogion presennol, maen nhw’n ymweld ag oddeutu un fferm newydd yr wythnos, ynghyd â dau ail ymweliad i wirio unrhyw welliannau. Dywedodd Marc y bydd unrhyw ddiweddariadau neu wybodaeth bellach yn cael eu cynnwys yn y Papur Diweddaru.

    Gofynnodd Creighton Harvey, FfPSG, i Marc a oedd ganddo unrhyw ffigurau ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau SSAFO. Dywedodd Marc nad oeddent ganddo wrth law, ond y gall gael gafael ar y ffigurau hynny a’u hanfon at aelodau yn y Papur Diweddaru nesaf.

***PG 01 Gorffennaf: Marc Williams, CNC, i ddod o hyd i’r ffigurau ar gyfer cydymffurfio â Rheoliadau SSAFO a’u cynnwys yn y Papur Diweddaru.***

Soniodd Creighton ei fod wedi darllen rhifyn mis Mehefin o gyhoeddiad NFU Cymru ‘Farming Wales’ a thrafod un o’r erthyglau nodwedd gyda’r grŵp.

***PG 02 Gorffennaf: Ed Davies, CNC, i adolygu’r erthygl yn ‘Farming Wales’ a’i thrafod gydag NFU Cymru.***

Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei bod yn wych bod gan CNC rywfaint o gyllid i’r Prosiect Llaeth barhau ond ei bod yn drueni na allai’r cyllid fod am gyfnod hirach gan y bydd yn rhaid i’r broses recriwtio ddechrau eto ac y gallai hynny lesteirio’r gwaith.

Roedd Dennis yn cofio, pan oedd angen iddo gael tanc elifiant newydd, fod yn rhaid iddo gael ei ardystio gan beiriannydd cymwysedig a bod angen iddo gael tystysgrif briodol a oedd yn manylu ar faint y tanc ac yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â’r

rheoliadau a oedd mewn grym ar y pryd. O ran tanciau mwy newydd, dywedodd Bob fod y wybodaeth hon ar gael ar eu cyfer fel arfer, ond ar gyfer tanciau hŷn, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn aml oherwydd nad oedd gofyniad ar y pryd i beiriannydd eu cymeradwyo. Felly, mater i'r ffermwr yw darparu'r wybodaeth hon ac na all CNC wneud mwy na gweithio gyda'r wybodaeth a ddarperir i swyddogion.

Soniodd Kate Snow, United Utilities, fod y Prosiect Llaeth wedi cael derbyniad da iawn a'i fod yn wych ei fod yn parhau. Dywedodd Kate fod storfeydd clawdd pridd a storfeydd leinin clai yn ddiddorol, gan fod cyfanswm y storio yn anghywir bob amser gan nad ydynt braidd byth yn cael eu gwagio'n llwyr gan nad ydych am i'r leinin clai gracio a gollwng. Dywedodd Kate eu bod wedi gwagio rhai i ddangos i'r ffermwyr faint o ddyfnder sydd ganddynt mewn gwirionedd, ac yn aml nid yw'n cyd-fynd â'r ffigurau gan eu bod wedi suddo dros amser yn aml. Soniodd Kate am bwynt diddorol gafodd ei grybwyll yn gynharach ynghylch sut i reoli'r storfeydd, ac y byddai gan United Utilities ddiddordeb mawr mewn gweithio gydag eraill i lunio canllawiau defnyddiol sylfaenol iawn y gall y grŵp eu cymeradwyo. Dywedodd Kate nad yw'n ymwybodol bod y wybodaeth hon eisoes ar gael, ac os yw'r aelodau'n gwybod am wybodaeth sy'n ymdrin â hyn, yna byddai'n hoffi cael copi. Soniodd Kate fod hyn yn rhywbeth y mae United Utilities yn ei archwilio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r NFU yn Swydd Gaer. Gofynnodd Zoe i Kate a yw hyn yn rhywbeth y byddai'n barod i'w wneud a'i arwain oherwydd byddai cefnogaeth dda ar gael drwy'r grŵp hwn. Dywedodd Kate fod gan United Utilities rywfaint o gyllid i'w gyfrannu, ond byddai angen cymorth technegol sefydliad fel AHDB arnynt. Dywedodd Kate y byddai'n hapus i reoli'r prosiect ond nad y hi fyddai'r person iawn i'w ysgrifennu. Dywedodd Marc y byddai CNC yn hapus i gefnogi'r gwaith hwn hefyd. Gwirfoddolodd Katy Simmons, CNC, i helpu hefyd, a soniodd y byddai gan gydweithwyr y Prosiect Llaeth ddiddordeb yn hyn hefyd. Dywedodd John Owen, Gelli Aur, y byddai'n hapus i'r prosiect hwn ddefnyddio Gelli Aur i ddangos arfer da. Dywedodd Charlotte Priddy, AHDB, y byddai'n barod i gael sgwrs am y gwaith hwn hefyd.

***PG 03 Gorffennaf: CNC i gefnogi Kate Snow, United Utilities wrth sefydlu prosiect i ddarparu canllawiau defnyddiol sylfaenol ar sut i reoli storfeydd slyri.***

11. Soniodd Marc Williams, CNC, fod pwynt gweithredu o gyfarfod mis Mehefin i sefydlu gweithgor bach i edrych ar Fesurau Amgen. Dywedodd Marc y bydd yn sefydlu hyn dros yr wythnosau nesaf ac yn bydd yn cael trafodaeth gydag aelodau unigol i weld a ydynt yn barod i gymryd rhan yn y gweithgor hwn. Yn y cyfamser, gofynnodd Marc i'r aelodau a oedd unrhyw un nad oedd am fod yn rhan o'r gweithgor. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau na sylwadau.

    Dywedodd Bob ei fod wedi siarad ag ychydig o unigolion a bu llawer o ddiddordeb mewn gweithio ar y cyd i gynhyrchu rhywbeth a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Eglurodd Bob na fyddai bod yn rhan o'r grŵp cyfunol yn atal unrhyw un rhag cynhyrchu rhywbeth arall ar ran ei sefydliad a fyddai hefyd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dywedodd Bob y bydd rhaglen yn cael ei threfnu hefyd i nodi beth/pryd y bydd pethau'n cael eu gwneud a'r lefel o adnoddau a ragwelir.

12. Soniodd Bronwen Martin, CNC, fod Shane Thomas, FfPSG, wedi anfon awgrymiadau o rai eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd i'r grŵp eu hystyried yn y dyfodol. Dywedodd Bronwen mai'r awgrym cyntaf oedd technoleg difa chwyn 'weed zapper', sydd wedi cael sylw yn y wasg amaethyddol yn ddiweddar. Datblygwyd y dechnoleg hon gan y

Small Robot Company, sy’n awgrymu ei bod yn cefnogi arferion ffermio cynaliadwy drwy leihau’r defnydd o chwynladdwyr yn ogystal â gwella iechyd pridd drwy leihau cywasgu pridd. Os yw hwn yn bwnc yr hoffai’r grŵp glywed mwy amdano neu am gael rhagor o wybodaeth yn ei gylch, dywedodd Bronwen y byddai’n ystyried gwahodd cynrychiolydd o’r Small Robot Company i gyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau y byddent yn hoffi clywed mwy am y dechnoleg ddiddorol hon.

***PG 04 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC, i wahodd cynrychiolydd o’r Small Robot Company i gyfarfod yn y dyfodol.***

Roedd ail awgrym Shane yn ymwneud â phrosiect hau glaswellt o dan indrawn yn Sir Benfro ac efallai fod cyfle i wahodd y Gymdeithas Tyfwyr Indrawn (Maize Growers Association) i roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Soniodd Shane wrth Bronwen mai hwn yw’r prif sefydliad sy’n cynrychioli tyfwyr indrawn yn y DU a byddent mewn sefyllfa dda i roi trosolwg o ble mae’r sector ar hyn o bryd a pha dueddiadau y gallwn ddisgwyl eu gweld yn y dyfodol. Gofynnodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, ai’r prosiect y cyfeiriodd Shane ato oedd yr un prosiect ag y mae Dŵr Cymru ynghlwm wrtho, ac os felly, y byddent yn hapus i roi cyflwyniad ar hyn gyda Field Options, contractwr y maent yn gweithio gydag ef. Dywedodd Creighton fod gan Shane ddiddordeb penodol mewn clywed gan gynrychiolydd o’r Gymdeithas Tyfwyr Indrawn i roi trosolwg mwy cyffredinol i’r grŵp o’r math o wybodaeth a chanllawiau y maent yn eu darparu i’w haelodau.

***PG 05 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC, i wahodd cynrychiolydd o’r Gymdeithas Tyfwyr Indrawn (Maize Growers Association) i roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.***

Soniodd Creighton ei fod ef a Shane yn trafod Ffermio Organig hefyd ac a allai’r grŵp gynnig rhyw fewnbwn ar y gofynion i sefydlu cynhyrchu organig, o ran cnydau fel indrawn, ac o ran llaeth. Dywedodd Creighton y gallai hyn fod yn ffordd o gynyddu incwm rhai ffermydd, heb orfod dwysáu o reidrwydd. Awgrymodd Creighton efallai y dylid gwahodd Cymdeithas y Pridd neu rywun sydd â gwybodaeth a phrofiad o ffermio organig a beth yw’r gofynion o ran sicrhau ardystiad organig i gynnyrch.

***PG 06 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC, i ymchwilio i wahodd Cymdeithas y Pridd neu rywun sydd â gwybodaeth a phrofiad o ffermio organig i gyfarfod yn y dyfodol.***

13. Soniodd Ed fod pwynt gweithredu o’r cyfarfod diwethaf i barhau i weithio gyda Tractor Coch a rhannu gwybodaeth. Cyfarfu Ed a Nichola Salter, CNC, â chydweithiwr sy’n arbenigwr GDPR mewnol, ac edrychodd ar y system bresennol sydd gan Tractor Coch i aelodau’r cyhoedd adrodd iddynt. Dywedodd Ed eu bod yn gobeithio sefydlu rhywbeth yn fewnol, ond o’r trafodaethau cychwynnol, dylai fod yn bosibl cael rhywbeth tebyg i’r cynllun atgyfeirio gyda thrawsgydymffurfio ac Arolygiaeth Wledig Cymru. Soniodd Ed eu bod yn cael cyfarfod ag Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd am eu bod wedi bod yn treialu cytundeb rhannu gwybodaeth tebyg gyda Red Tractor yn Lloegr. Dywedodd Ed y gall roi’r wybodaeth ddiweddaraf am hyn pan fydd ganddo fwy o wybodaeth i’w rannu.

14. Soniodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod Afonydd Cymru wedi cynnig rhoi cyflwyniad i’r grŵp ar rai o’r mentrau llygredd amaethyddol maen nhw’n ymwneud â nhw ar hyn o bryd.

***PG 07 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC, i gysylltu ag Afonydd Cymru a threfnu iddynt wneud cyflwyniad i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf.***

15. Soniodd Marc y gellir trefnu siaradwyr gwadd ar gyfer y cyfarfod nesaf, ond mae mis Awst yn dawel ar y cyfan oherwydd bod pobl yn mynd ar wyliau. Gofynnodd Marc i'r grŵp a fydd llawer o aelodau ar gael i fynychu'r cyfarfod nesaf neu efallai y gellid ei wthio i fis Medi pan fydd mwy o bobl o gwmpas. Cadarnhaodd Bronwen mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Llun 23 Awst. Os oes unrhyw broblemau, dywedodd Marc y gall aelodau gysylltu ag ef, Ed neu Bronwen. Awgrymodd Zoe y gellid creu arolwg barn i weld a oes llawer o aelodau ar gael i fynychu cyfarfod mis Awst.

***PG 08 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC, i greu arolwg barn i weld a oes llawer o aelodau ar gael i fynychu cyfarfod mis Awst.***

Dywedodd Bob, wrth feddwl ymlaen, nawr bod Lloegr wedi llacio'r holl gyfyngiadau Covid ar bobl, efallai y daw'r amser pan fydd Cymru'n gwneud hynny hefyd. Gofynnodd Bob a oes unrhyw leoliadau penodol yr hoffai'r aelodau ymweld â hwy tua diwedd y flwyddyn. Dywedodd Bob ei fod wedi siarad â Fraser a phobl yn NFU Cymru am ffermwr penodol ym Mro Morgannwg, gan fod cynnig wedi dod i law i ymweld â'r fferm honno i weld beth sy'n digwydd yno.

***PG 09 Gorffennaf: Aelodau i awgrymu unrhyw leoliadau a manylion am ymweliadau safle wyneb yn wyneb posibl yn y dyfodol.***

16. Soniodd Zoe fod drafft o'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Tir Tenantiaid wedi'i hanfon at yr aelodau cyn ein cyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Gan bod llawer o bobl heb gael cyfle i adolygu'r ddogfen eto, argymhellodd Zoe y dylid trafod y pwnc hwn yn fyr yn ystod yr eitem 'Unrhyw Fater Arall' heddiw ac efallai ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## Eitem 4 Drafft Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

17. Anfonwyd dogfen ddrafft Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru at yr aelodau er mwyn iddynt ei hadolygu cyn y cyfarfod. Gofynnodd Katy Simmons, CNC, am adborth ynghylch gwedd gyffredinol y Cylchlythyr, y cynllun a'r enw. Dywedodd Katy fod y tîm wedi llunio'r enw 'Agri-culture', a oedd yn ffefryn cryf yn fewnol, a dyna pam na chafodd arolwg barn gyda dewis o enwau amgen ei ddosbarthu. Bydd is-bennawd ategol yn mynd o dan deitl y Cylchlythyr hefyd. Dywedodd Katy fod croeso i unrhyw adborth a bydd wedyn yn adolygu'r ddogfen i'w chymeradwyo'n derfynol.

18. Gofynnodd Ruth Johnston, CNC, pa mor dda y mae 'Agri-culture' yn cyfieithu i'r Gymraeg. Soniodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, y byddai'n well ganddi beidio â chyfieithu'r enw'n llythrennol i'r Gymraeg ac awgrymodd y byddai fersiwn amgen/debyg yn Gymraeg yn well.

19. Soniodd Dennis ei fod yn siomedig ei bod yn amlwg nad oedd y grŵp yn hoffi ei awgrymiadau; 'Poo Bare' a 'Much-a-do-about Muck'.

20. Dywedodd Zoe nad yw'n rhy hoff o'r teitl 'Agri-culture' ond y byddai'n ei dderbyn os yw pawb arall yn hapus. Dywedodd Katy y byddai'n casglu'r enwau sydd wedi'u hawgrymu ac yn dosbarthu arolwg barn.

***PG 10 Gorffennaf: Katy Simmons, CNC, i greu pleidlais gydag enwau amgen ar gyfer y Cylchlythyr i aelodau'r Is-grŵp allu pleidleisio dros eu dewis deitl.***

21. Soniodd Ed ei bod yn bwysig i aelodau'r Is-grŵp fod yn hapus ac yn fodlon i rannu'r Cylchlythyr gyda'u haelodau er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Mae'r Cylchlythyr hwn yn ffordd o rannu newyddion, profiadau a gwybodaeth am sefydliadau ei gilydd.

22. Soniodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, ei bod yn hoffi cynllun y Cylchlythyr ond nad yw'r enw'n taro deuddeg.

23. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, a fydd y Cylchlythyr ar gael mewn fformat electronig yn unig ac yn cael ei ddosbarthu drwy e-bost, neu a fydd fersiwn brint ar gael hefyd. Dywedodd Katy mai e-gylchlythyr yw'n bennaf ond efallai y gellid ei droi'n PDF a'i argraffu er mwyn cyrraedd eraill. Soniodd Fraser fod aelodau'n cael peth wmbredd o e-byst yn aml, a bod grŵp o ffermwyr nad ydynt yn deall e-bost, ac felly, yn dibynnu ar y gyllideb, byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi a dosbarthu nifer fach o gopïau. Cytunodd Ed â Fraser, a dywedodd mai'r bobl hynny yw'r rhai y dylai'r Cylchlythyr eu cyrraedd. Dywedodd Marc y byddai'n ddefnyddiol gallu dosbarthu rhai copïau mewn sioeau yn y dyfodol hefyd.

## Eitem 5 Cyflwyniad Prosiectslyri

24. Croesawyd John Owen, Gelli Aur i'r cyfarfod gan Zoe, a diolchodd iddo am ddychwelyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect diddorol Prosiectslyri ar gampws amaethyddol Gelli Aur Coleg Sir Gâr.

25. Diolchodd John i Zoe am y gwahoddiad a'r cyfle i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect. Soniodd John fod ambell gamsyniad nad oedd y Prosiectslyri gwreiddiol yn llwyddiannus. Mae'r datblygiadau presennol mewn partneriaeth â chwmnïau masnachol sy'n bwriadu cyflwyno'r system hon yn fasnachol.

26. Dechreuodd John drwy sôn bod adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ar eu gwefan – Gwefan Prosiectslyri.

27. Bu John yn crynhoi pam a sut y sefydlwyd Prosiectslyri yn y lle cyntaf. Daeth y prosiect i fodolaeth drwy bartneriaeth rhwng Coleg Sir Gâr a Power&Water, cwmni o Abertawe sy'n arbenigo mewn triniaethau dŵr electrocemegol. Cefnogwyd y trafodaethau cychwynnol gan Dîm Arloesi Llywodraeth Cymru, ac wedi cyfres o gydweithrediadau a thrafodaethau, cyflwynwyd cais yn y pen draw i gydweithio ar system brosesu a fyddai'n tynnu'r dŵr o slyri. Dywedodd John fod gan slyri tua 95% o ddŵr fel arfer, ac mai holl bwrpas y prosiect oedd tynnu'r dŵr, cadw'r holl faethynnau yn y ffurf solet, ailgylchu'r dŵr ac yna ceisio gwaredu unrhyw ddŵr dros ben.

28. Esboniodd John mai'r rheswm am y bartneriaeth gyda Power&Water oedd er mwyn defnyddio'r system a ddatblygwyd gan y cwmni ar gyfer carthion trefol a'i mabwysiadu ar gyfer slyri gwartheg. Cafwyd rhai trafferthion technegol cychwynnol a gwelwyd bod anghysondeb menw deunydd sych slyri yn creu problem o ran baeddu'r electrodau a oedd yn cael eu defnyddio i gynhyrchu'r cemegau yn y broses driniaeth. Profwyd sawl ffordd i geisio dileu'r broblem honno. Ar ôl rhoi cynnig ar nifer o ddulliau, dychwelwyd at driniaeth gemegol hylifol sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

29. Soniodd John fod y prosiect gwreiddiol wedi arwain at system a oedd yn llawer symlach yn y pen draw, yn llawer is o ran y galw am gyfalaf ac yn llawer haws i'w rheoli na'r un ar y dechrau. Erbyn hyn, mae ganddyn nhw gynnyrch sydd dri chwarter y ffordd at gynhyrchu dŵr glân.

30. Galluogodd y diddordeb a greodd y prosiect gwreiddiol iddyn nhw edrych ar ddatblygu'r prosiect ymhellach, a symud y datblygiad gwreiddiol tuag at fasnacheiddio. Er mwyn cynhyrchu'r cyllid ar gyfer hyn, cyflwynwyd cais am gyllid SMART Expertise gyda chymorth gan Arloesedd Llywodraeth Cymru.

31. Esboniodd John fod y cam nesaf drwy SMART Expertise yn cynnwys nifer o fodiwlau'n gweithio gyda chwmnïau masnachol sydd eisiau cyflwyno eu prosesau nhw i'r system sydd wedi'i datblygu. Roedd cwmni o'r enw Netafim eisiau datblygu system ddyfrhau ochr yn ochr â'r system dynnu dŵr hefyd.

32. Mae gan gwmni arall o'r enw N2Applied system broses lle maen nhw'n gallu echdynnu amonia o'r atmosffer a'i gyflwyno i solidau slyri neu hylif slyri i wella'r cynnwys nitrogen ynddo. Byddai'r broses hon yn darparu hylif drwy ddyfrhau â diferion allan i'r cae tra'n gwella'r cynnwys nitrogen ar yr un pryd.

33. Mae'r prosiect yn parhau â'i berthynas â CNC, sy'n dadansoddi'r holl samplau a gynhyrchwyd, ac mae'n gweithio gyda Dŵr Cymru hefyd ar fonitro ansawdd y dŵr sy'n rhedeg drwy'r is-afon ger Gelli Aur.

34. Sicrhawyd rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Dŵr a Llifogydd i roi'r gwelliannau a ddatblygwyd yn y prosiect gwreiddiol ar waith. Dangosodd John ddelwedd o danc DAF newydd sydd wedi'i gyflwyno i adlewyrchu deilliannau datblygu Prosiectslyri, ac esboniodd y broses.

35. Yn gryno, dywedodd John fod triniaeth gemegol yn cymryd lle'r driniaeth electrocemegol ac aeth ati i esbonio llun o'r tanciau cymysgu cemegol newydd.

36. Soniodd John eu bod yn ymwybodol iawn bod angen iddyn nhw wneud y gorau o'r maetholion a geir ym mha bynnag ffurf. Mae ganddynt system lle mae'r maetholion yn cael eu darparu ar ffurf solid ac maen nhw wedi cyflwyno trefn gyflenwi fanwl fferm gyfan. Dywedodd John eu bod yn ymwybodol nad yw maetholion pawb ar y ffurf hon, felly maen nhw'n archwilio defnyddio slyri traddodiadol gyda chyflenwi manwl hefyd. Esboniodd John mai diben y modiwl hwn yw edrych ar effeithlonrwydd maetholion fferm gyfan ar bob ffurf ac archwilio'r enillion effeithlonrwydd sy'n bosibl i'w cyflawni.

37. Soniodd John eu bod nhw'n edrych ar holl gylch nitrogen y fferm ac unrhyw golledion amonia hefyd. Y nod yw cael gweithrediad ffermio sero-net yn Gelli Aur gan ddefnyddio'r technegau hyn.

38. Rhoddodd John drosolwg o Brosiect Tywydd Tywi. Mae'r prosiect yn cynnwys chwe gorsaf dywydd yn Nyffryn Tywi sy'n mesur y tywydd yn ogystal â defnyddio synwyryddion pridd i fesur lleithder pridd, tymheredd y pridd a gwlybaniaeth dail. Nod y prosiect yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am addasrwydd y tir ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn ar gyfer trosglwyddo maetholion. Mae ap syml ar gyfer ffermwyr sy'n dangos y wybodaeth a gynhyrchir gan y gorsafoedd tywydd i'w helpu i wneud eu penderfyniadau rheoli maetholion. Mae pum agwedd ar gael i'r ffermwyr eu gweld, gan

gynnwys taenu slyri, taenu tail, chwistrellu plaladdwyr, cynaeafu a gwasgaru gwrtaith. Mae'r ap yn dangos addasrwydd yr amodau presennol, ar ffurf goleuadau traffig, ar gyfer trosglwyddo'r maetholion hynny. Mae'r ap yn cynnig rhagolygon y tywydd am 5 diwrnod i ddod hefyd. Soniodd John fod hwn yn adnodd i ffermwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr â'u Cynlluniau Rheoli Maetholion. Mae modd casglu'r data i'w ddefnyddio fel rhan o gofnodion rheoli ffermwyr a dangos cydymffurfiaeth a dangos eu bod wedi seilio eu penderfyniad ar ddata a gwybodaeth. Nid yw'r prosiect wedi'i lansio'n swyddogol eto, ond bydd yn cael ei lansio i gyd-fynd â'r eitem mewn pennod o 'Ffermio' yn y dyfodol.

39. Yn olaf, esboniodd John eu bod wedi sefydlu system gwelyau cyrs yn Gelli Aur hefyd ar gyfer sgwrio dŵr a wahanwyd er mwyn gwella ei ansawdd.

40. Croesawodd John yr aelodau i ymweld â'r prosiect unrhyw bryd, ac awgrymodd y gallai Gelli Aur gynnal cyfarfod Is-grŵp yn y dyfodol.

41. Diolchodd Zoe i John am ei gyflwyniad ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y gwaith arloesol parhaus yn Gelli Aur. Croesawyd cwestiynau.

42. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, sut maen nhw'n ystyried y cyflenwad maetholion pridd yn y dadansoddiad. Dywedodd John eu bod yn parhau i fonitro unrhyw newidiadau ym maetholion y pridd, a'u bod yn monitro unrhyw halogiad cemegol posibl o'r broses wahanu drwy samplu parhaus.

43. Gofynnodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, a oes ganddynt unrhyw ddata ar economeg y prosiect hwn i ddangos y bydd yn hyfyw i ffermwyr yn economaidd. Dywedodd John eu bod yn monitro'r costau drwy gydol y prosiect cychwynnol ond wrth symud ymlaen, mae ganddynt system bellach sy'n is o ran cyfalaf gyda chostau rhedeg tebyg. Un o amcanion y prosiect oedd creu system sy'n ddewis amgen go iawn ac yn opsiwn i ffermwyr ei ystyried. Dywedodd John eu bod yn credu bod ganddynt broses a fydd yn darparu system amgen i ffermwyr ei defnyddio sy'n llawer mwy effeithlon o ran defnyddio maetholion, ac sy'n cynnig llawer o fanteision. Gofynnodd Chris a oedd gan John unrhyw amcangyfrif o'r costau cyfalaf. Dywedodd John fod y system sydd ganddynt oddeutu £250,000 o ran costau cyfalaf. Gofynnodd Chris am yr arbedion os nad yw'r ffermwr yn defnyddio gwrtaith artiffisial. Dywedodd John y gallai fod rhywle oddeutu £18,000 y flwyddyn ar fferm o'r maint hwnnw fel arbediad cychwynnol, ac nad yw'n ystyried unrhyw gostau storio traddodiadol, costau taenu, costau dŵr ac ati.

44. Dywedodd Creighton Harvey, FfPSG, mai'r prosiect cychwynnol oedd tynnu'r hylif o'r slyri a thynnu'r maetholion o'r hylif fel bod modd ailddefnyddio'r dŵr. Dywedodd Creighton iddo ddarllen Cylchlythyr mis Mai a oedd yn nodi y daethpwyd i'r casgliad bod echdynnu dŵr yn gyson i'r ansawdd sydd ei angen yn gostus o ran gwariant cyfalaf, costau rhedeg ac amser rheoli. Cyfeiriodd Creighton at y ffaith fod John wedi bod yn sôn am wella'r cynnwys nitrogen hylifol a chadw maetholion. Dywedodd Creighton ei bod yn ymddangosbod y pwyslais wedi newid o gael gwared ar faetholion o'r hylif ac yn hytrach, rhoi mwy o faetholion ynddo. Esboniodd John fod y rhain yn opsiynau hyblyg gan fod y system newydd yn caniatáu sawl opsiwn gwahanol, fel anfon yr holl ddŵr i'r system gwelyau cyrs neu newid y broses hanner ffordd i ddarparu maetholion yn uniongyrchol i'r cae yn ystod cyfnodau o angen am ddyfrhau a throsglwyddo maetholion.

Dywedodd John ei bod yn hyblyg iawn yn y dull hwnnw ac yn cynnig gwahanol opsiynau ar gyfer gwahanol bobl a gwahanol rannau o'r byd; lle mae galw enfawr yn y gwledydd mwy sych am ddyfrhau a darparu maetholion, mae'n bosibl mai'r hyn maen nhw eisiau ei wneud yng ngorllewin Cymru mewn gwirionedd yw cadw'r maetholion ar ffurf sych a phuro'r dŵr i ansawdd y mae modd ei ollwng cyn gynted â phosibl. Dywedodd Creighton fod hynny'n mynd yn ôl at nodau cychwynnol y prosiect yn hytrach na'r nodau newydd o ran gwella'r cynnwys nitrogen. O ran cynnwys nitrogen, dywedodd John eu bod i gyd yn ddewisol, ac mai'r gallu i ddewis beth sy'n addas ar gyfer eich busnes chi yw un o brif gryfderau'r broses fodiwlaidd. O ran y Gorllewin, gofynnodd Creighton os mai'r bwriad fyddai gwaredu maetholion o'r hylif yn hytrach na'u hychwanegu. Dywedodd John y gallai cyfle godi gyda'r broses wella i gynyddu nitrogen y deunydd solet hefyd, drwy wella'r slwtsh a gynhyrchir o'r broses wahanu cyn ei ymgorffori yn y deunydd solet. Gellir asideiddio'r slwtsh cyn ei ychwanegu i'r cynnwys solet i leihau'r golled amonia o'r deunydd solet sy'n cael ei storio.

Pan lansiwyd y prosiect, dywedodd Creighton fod nifer o ffermwyr yn holi pam y dylen nhw wella'r seilwaith ar eu ffermydd pan oedd 'bwled arian' yn yr arfaeth. Gofynnodd Creighton i John pa mor bell i ffwrdd maen nhw o gael system y mae modd ei chyflwyno i ffermydd yn y Gorllewin. Dywedodd John fod un o'r sefydliadau partner yn bwriadu cyflwyno hyn cyn gynted â phosibl ar ffurf fodiwlaidd, felly o fewn 18 mis, dylai'r prosiect fod wedi'i masnacheiddio. Gofynnodd Creighton pa ddarpariaethau gaiff eu gwneud ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gywir i ffermwyr am y prosiect. Dywedodd John nad ydyn nhw'n gallu symud yn gyflymach na datblygiad y prosiect, ond y bydd pa wybodaeth bynnag maen nhw'n ei chyflenwi yn gywir.

## Eitem 6 Cyflwyniad AgroCares

45. Croesawodd Zoe Viktoriia Sakun, Rheolwr Busnes Rhyngwladol gydag AgroCares, i'r cyfarfod i gyflwyno'r grŵp i adnodd Sganiwr Maeth AgroCares.

46. Cyflwynodd Viktoriia ei hun a chyfeiriodd yn fyr at gefndir a hanes AgroCares.

47. Soniodd Viktoriia fod AgroCares yn galluogi ffermio seiliedig ar ffeithiau gydag atebion ffermio wedi'u cymell gan ddata clyfar drwy ddefnyddio technoleg a meddalwedd synhwyrydd. Gall yr adnodd Sganiwr Maeth sganio'r maetholion mewn pridd, porthiant neu ddail. Maent yn defnyddio tri math o synhwyrydd; is-goch agos (dyfais llaw yn bennaf), drych a phelydr-X.

48. Er mwyn rhagweld statws maethol, esboniodd Viktoriia fod y Sganiwr yn cymharu ei ganlyniadau â chronfa ddata pridd, cronfa ddata dail neu gronfa ddata faeth Trouw Nutrition. Mae'n gallu darparu gwasanaethau profi ac argymell maetholion cyflym a fforddiadwy. Mae cronfa ddata pridd AgroCares yn weithredol mewn 22 o wledydd (gan gynnwys 7 yn Affrica), mae'r gronfa ddata dail ar gael ar gyfer sawl cnwd ar hyn o bryd ac mae'n cael ei datblygu ymhellach, ac mae'r atebion porthiant yn defnyddio'r gronfa ddata a ddatblygwyd gan Trouw Nutrition (partner strategol).

49. Roedd y cyflwyniad yn dangos y camau sy'n weithredol pan fydd ffermwr yn defnyddio'r adnodd i brofi'r pridd. Dywedodd Viktoriia fod y broses gyffredinol o raddnodi'r adnodd i dderbyn canlyniadau'r dadansoddiad pridd yn cymryd tua 10 munud.

50. Cyn y gellir defnyddio sganiwr mewn lleoliad, soniodd Viktoriia fod angen rhywfaint o ddata i raddnodi'r ardal. Yn yr Iseldiroedd, er enghraifft, bu'n rhaid i AgroCares gasglu tua 1,300 o samplau o'r ardal i sicrhau eu bod yn gallu darparu canlyniadau cywir. Mae'r adran Ymchwil a Datblygu'n cynnal y broses raddnodi drwy:

- Ddiffinio'r rhanbarth targed a'r pwyntiau graddnodi
- Casglu samplau a'u hanfon i'r Iseldiroedd
- Dadansoddi mewn labordy
- Creu modelau/cronfa ddata rhagfynegiadau

51. Aeth Viktoriia ymlaen i grynhoi galluoedd y sganiwr:

- Gellir ei ddefnyddio yn y cae neu ar y fferm
- Hawdd ei ddefnyddio (gweithdrefn 10 munud)
- Monitro yn ystod y tymor tyfu/yn y fan a'r lle
- Apiau lluosog AgroCares at ddibenion/gwledydd gwahanol
- Data sy'n hawdd ei integreiddio
- Cymwysiadau wedi'u haddasu'n bwrpasol

52. Yn olaf, cynigiodd Viktoriia drosolwg o'r paramedrau posibl ar gyfer casglu gan yr opsiwn profi pridd:

- Nitrogen (N)
- Ffosfforws (P)
- Potasiwm (K)
- pH
- Lefel deunydd organig
- Cynnwys clai

53. Diolchodd y Cadeirydd i Viktoriia am gyflwyno'r grŵp i'r adnodd Sganiwr Maeth arloesol a'r technolegau y mae AgroCares wedi'u datblygu. Croesawyd cwestiynau.

54. Gofynnodd Zoe sut y byddai Cymru'n cael ei graddnodi. Dywedodd Viktoriia bod angen iddo fod yn fasnachol hyfyw a bod angen galw am y dechnoleg. Fel arfer, mae AgroCares yn gweithio gyda phartner maes a fyddai'n cyflwyno eu diddordeb yn yr ardal, a chyda pherson lleol a fyddai â dealltwriaeth glir o'r arferion amaethyddol ac a fyddai'n hyrwyddo'r dechnoleg.

55. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod y cnydau y mae AgroCares yn dadansoddi eu dail yn tueddu i fod yn gnydau ungnwd fel soia a gwenith, ond mai

glaswellt yw’r prif gnwd yng Nghymru, a hwnnw’n aml yn borfa gymysg o lawer o wahanol rywogaethau. Soniodd Bernard y bydd ffermwyr, wrth symud ymlaen, yn cael eu hannog i gynhyrchu mwy o fioamrywiaeth yn y borfa, a gofynnodd sut mae’r sganiwr yn gweithio o dan yr amgylchiadau hynny. Dywedodd Viktoriia nad yw hyn wedi cael ei brofi’n llawn eto.

56. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, ei fod yn edrych fel adnodd amlbwrpas a gofynnodd am ei fforddiadwyedd ar lefel fferm a sut mae’n cymharu â’r costau profion labordy traddodiadol. Yn seiliedig ar ei phrofiad, dywedodd Viktoriia na fydd ffermwyr yn buddsoddi oherwydd ei fod yn ddrud. Mae’r dechnoleg hon yn cael ei defnyddio’n amlach gan gynghorwyr, gan eu bod nhw’n ei phrynu ac yn darparu gwasanaeth i ffermwyr. Dylid ystyried maint y cae hefyd. I ffermwr Ewropeaidd, er enghraifft, byddai cae yn 10 hectar ar gyfartaledd a byddent yn cymryd 10-20 sampl y flwyddyn o bosibl, o’i gymharu â ffermwr yn Nwyrain Ewrop gyda chaeau 50,000 hectar, ble gallai’r sganiwr fod yn rhywbeth y byddent yn buddsoddi ynddo. Esboniodd Rachel fod ffermydd teuluol Cymru yn weddol fach o ran maint gyda’r cyfartaledd tua 48 hectar ac mae’r parseli caeau yn tueddu i fod yn eithaf bach o ganlyniad i systemau sy’n seiliedig ar laswellt yn bennaf, gan gynhyrchu cig coch a llaeth â rhywfaint o dir âr. Dywedodd Viktoriia ei bod yn fwy hyfyw i gynghorydd fuddsoddi, neu i gymuned o ffermwyr rannu’r gost neu i labordy lleol fuddsoddi. Mae’r caledwedd ei hun yn costio €3,000 gydag isafswm ffi flynyddol o €1,700, ond nid oes terfyn ar nifer y samplau pridd sy’n gallu cael eu dadansoddi. O ran dadansoddi glaswellt ffres, mae’ncostio €300 yn flynyddol ar hyn o bryd.

57. Esboniodd Bob Vaughan, CNC, fod Cymru wedi gadael yr UE ac yn disodli’r system PAC gyda rhywbeth sy’n dal i roi cymorth i reolwyr tir. Rydyn ni’n edrych ar newid yn yr hinsawdd ac a oes taliadau’n cael eu cynnig am ddal carbon a lliniaru carbon. Soniodd Bob fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut y gall synhwyro â lloeren ac o bell helpu, a gofynnodd a yw AgroCares wedi ystyried cysylltu’r synhwyrydd â system synhwyro o bell fel bod graddnodi rhwng y ddau. Dywedodd Viktoriia fod delweddu hyper-sbectrol wedi’i gyflwyno’n ddiweddar, ac y gallai hynny fod yn destun ymchwil diddorol yn y dyfodol. Mae gan AgroCares ychydig o brofiad gyda synhwyro o bell, ond nid oedd y canlyniadau’n gadarnhaol.

58. Gofynnodd Zoe a yw AgroCares wedi ennyn llawer o ddiddordeb yn y DU hyd yn hyn. Dywedodd Viktoriia fod rhai cwmnïau sy’n defnyddio’r sganiwr ar gyfer dadansoddi porthiant a rhai sydd yn y cyfnod cynnar o’i ddefnyddio ar gyfer rhaglenni carbon. Nid yw AgroCares wedi trafod graddnodi gydag unrhyw un yn y DU eto.

## Eitem 7 Trafodaeth Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)

59. Rhannodd Marc Williams, CNC, ei sgrin yn amlinellu’r pryderon a’r heriau a amlygwyd yn y gorffennol. Gofynnodd Marc i’r grŵp drafod a yw’r blaenoriaethau wedi newid ers iddynt gael eu hadolygu ddiwethaf neu a oedd unrhyw syniadau newydd y gellid eu datblygu. Dylai’r grŵp feddwl am yr heriau a pheidio â symud i’r ‘modd datrys’.

- Pryder 1: ‘Gwneud technoleg monitro a data sy’n deillio ohoni yn ddealladwy ac yn hawdd eu cyflwyno i ffermwyr mewn ffordd gost-effeithiol, gan gynnwys data mapio pridd hygyrch’.

- Her 1: ‘Darparu’r data a’r wybodaeth i ffermwyr i’w galluogi i reoli eu tir yn gynaliadwy a darparu mynediad agored a gwybodaeth am gyflyru pridd sy’n hawdd ei dehongli’.

- Pryder 2: ‘Sut i ddarparu pecyn addysg ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr ar faterion llygredd a rhoi maetholion ar dir’.

- Her 2: ‘Helpu rheolwyr tir i wneud y dewisiadau cywir’.

60. Soniodd Marc iddo gael cyfarfod gyda Kate Williams, Llywodraeth Cymru, i drafod proses ymgeisio SBRI. Mae Kate yn mynd i rannu enghreifftiau o’r prosiectau sydd wedi’u cwblhau ond, yn y cyfamser, mae hi wedi darparu’r Ffurflen Mynegi Diddordeb i’r grŵp allu gweld y math o wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cais.

61. Gofynnodd Marc i’r grŵp a yw’r her gyntaf a nodwyd yn dal i fod yn flaenoriaeth. Soniodd Bob ei fod yn credu mai dyma’r brif flaenoriaeth o hyd, ac y dylid ceisio sicrhau bod data ar gael i ffermwyr i’w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.

62. Soniodd Marc fod Dennis Matheson, TFA, wedi anfon awgrymiadau o syniadau arloesol, ond bwriad prosiect SBRI yw archwilio pethau nad ydynt ar y farchnad ar hyn o bryd.

***PG 11 Gorffennaf: Marc Williams, CNC, i rannu’r wybodaeth a ddarparwyd gan Dennis Matheson, TFA gyda gweddill y grŵp.***

***PG 12 Gorffennaf: Marc Williams, CNC, i anfon taenlen awgrymiadau SBRI at yr aelodau i adolygu a chyflwyno sylwadau neu awgrymiadau erbyn y cyfarfod nesaf.***

63. Gofynnodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, am fwy o fanylion am yr her ynghlwm wrth yr ail bryder, ‘Helpu rheolwyr tir i wneud y dewisiadau cywir’, ac awgrymodd y dylid darparu mwy o wybodaeth. Dywedodd Marc mai’r pryder oedd ‘Sut i ddarparu pecyn addysg ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr ar faterion llygredd a throsglwyddo maetholion i dir’; felly’r her oedd ceisio nodi’r dewisiadau cywir o ran rhoi maetholion ar dir a sut maen nhw’n ymledu i dir gan sicrhau nad ydyn nhw’n achosi risg llygredd. Fel rhan o’r Ffurflen Mynegi Diddordeb, bydd y grŵp yn gwneud pethau’n gliriach ond heb fod yn rhy benodol, oherwydd gall her ehangach helpu i nodi atebion a syniadau arloesol.

64. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, a all aelodau fynegi unrhyw bryderon ychwanegol. Dywedodd Marc y byddai’n bosibl ychwanegu unrhyw bryderon neu heriau newydd i’r daenlen oherwydd y posibilrwydd eu bod nhw’n fwy o flaenoriaeth bellach na’r rhai a ddewiswyd yn 2019.

65. Gofynnodd Zoe a oedd dyddiad cau. Esboniodd Marc nad oes dyddiad cau ond y byddai’n ceisio cyflwyno’r Ffurflen Mynegi Diddordeb yn fuan. Mae dau gam i’r cais; Ffurflen Mynegi Diddordeb a’r cais llawn.

## Eitem 8 Unrhyw Fater Arall

66. Diolchodd Zoe i Andrew Chambers, Spencer Conlon a Matthew Walters, Llywodraeth Cymru am anfon y ddogfen ddrafft Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Tir Tenantiaid i’r grŵp

cyn y cyfarfod ond nododd ei bod yn bosibl nad yw llawer o aelodau wedi cael cyfle i’w hadolygu’n fanwl eto.

Soniodd Spencer ac Andrew ei bod yn ddogfen bwysig iawn ac ymddiheurwyd am beidio â’i dosbarthu i’r aelodau yn gynt, ond eglurwyd bod adnodd allanol ar gael i’w hadolygu. Dywedodd Spencer nad yw’r ddogfen yn mynd i ateb cwestiwn pawb ar gyfer pob senario, ond y bydd yn ateb y prif eitemau craidd. Croesawodd Spencer adborth gan aelodau am yr hyn sydd ac nad sydd yn y ddogfen, ac awgrymodd y gellid anfon unrhyw sylwadau ato cyn gynted â phosibl erbyn diwedd yr wythnos nesaf (30 Gorffennaf 2021).

***PG 13 Gorffennaf: Aelodau i adolygu’r ddogfen ddrafft Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Tir Tenantiaid a chyflwyno sylwadau erbyn 30 Gorffennaf 2021.***

Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei fod wedi darllen y ddogfen, a soniodd mai’r pryder mwyaf yw nad oes unrhyw eithriadau i denantiaid os nad ydyn nhw’n gallu cydymffurfio oherwydd eu cytundebau tenantiaeth; maen nhw naill ai’n torri’r cytundeb tenantiaeth neu’r rheoliadau. Trafododd Dennis fanylion yn y ddogfen ynghylch cymrodeddu, gwelyau cyrs a chytundebau llafar. Atgoffodd Dennis y grŵp nad yw hyn yn ymwneud â storfeydd slyri yn unig, gan fod tua 8 o’r 20 cymal yn gwrthdaro’n uniongyrchol â’r rheoliadau newydd. Dywedodd Spencer fod Rheoliadau SSAFO wedi bod ar waith ers dros 30 mlynedd a’u bod yn cynnwys gofynion storio, felly mae mater y cytundeb landlord a thenant wedi bod ar waith mewn perthynas â bodloni’r rheoliadau a chydymffurfio.

67. Soniodd Bob Vaughan, CNC, fod Dŵr Cymru wedi lansio cylch newydd o’u Cynllun Gwaredu Plaladdwyr am ddim, ac awgrymodd y gellir dosbarthu manylion i’r grŵp fel eu bod yn gallu rhannu’r wybodaeth â’u haelodau. Cytunodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, a dywedodd y byddai’n anfon y wybodaeth at Bronwen i’w rhannu gyda’r grŵp.

Cynllun Gwaredu Plaladdwyr Am Ddim Dŵr Cymru

***PG 14 Gorffennaf: Sarah Jones, Dŵr Cymru, i anfon manylion y Cynllun Gwaredu Plaladdwyr am ddim at Bronwen Martin, CNC.***

***PG 15 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC, i rannu manylion Cynllun Gwaredu Plaladdwyr am ddim Dŵr Cymru gyda’r grŵp.***

68. Mae cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi’i drefnu ar gyfer 23 Awst 2021.

## Diwedd y cyfarfod